CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR
COFNODION CYFARFOD
9 Mawrth 2022, yn Y Ganolfan, Penmynydd

YN BRESENNOL: Cyng. D. Idriswyn Roberts (Cadeirydd), N. Jones, Ll. Roberts, S. Hughes. A Mummery, M. Jones (Cyngor Sir). A. Le Cras (Clerc)	
1.	**YMDDIHEURIADAU** Cyng. D Gwyn, E. Williams, R. Williams, (Cyngor Sir)
2.	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3.	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 02/02/22. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. A. M. yn cynnig a Ll. R. yn eilio.
4.	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**MAES CHWARAE STAR** Cynhaliwyd ymgyngoriad cyhoeddus ar yr opsiynau rhoddwyd ymlaen gan y grwp tasg. Roedd yr ymateb gan y cyhoedd yn groesawus o'r cynlluniau i ddatblygu'r maes chwarae ac ychwanegu at yr adnoddau sydd ar gael i'r gymuned. Clerc i gysylltu gyda Jenny Whiston, Swyddog Grantiau Cyngor Sir Ynys Môn a Lyndsey, Medrwn Môn ar gyfer gwybodaeth am grantiau addas.
4.2	**Tai Rogers Lewis, Penmynydd** Adroddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn edrych ar gael newid y cyfansoddiad . O.E. mewn cyswllt gyda swyddogion o fewn y Cyngor Sir ynglyn a'r materion cynllunio a datblygu.
4.3	**Gor yrru a materion diogelwch ffyrdd** Cyfarfod gyda swyddogion priffyrdd i'w drefnu ar y cyd gyda Cyngor Bro Llanfairpwll.
4.4	**Band Eang –** Y Cadeirydd yn disgwyl gwybodaeth am y cynlluniau newydd sydd ar y gweill.
5.0	**MATERION ARIANNOL**
5.1	**Cytundeb Torri Gwair** Gofynwyd i dri cwmni gynnig pris am dorri gwair y safle maes chwarae yn Star. Derbyniwyd ddau bris: Norman Jones, £135 pob toriad (dim TAW)

	G.B.S., £50 pob torriad & TAW Nodwyd bod eithaf gwahaniaeth rhwn y dau pris a penderfynwyd yn unfrydol i dderbyn pris cwmni G.B.S. a'u gwahodd i dderbyn y gytundeb. Y Clerc i gysylltu gyda'r ddau gwmni i'w hysbysebu o'r penderfnyniad.
5.2	**Coed yn y Maes Chwarae –** Adroddwyd fod rhai o'r coed yn dedrych fel petai clefyd arnynt. Y Clerc i adrodd i'r Cyngor Sir perchnogion y tir.
7.0	**MATERION ERAILL**
7.1	Dyddiad cau cofrestru fel ymgeisydd i'r Cyngor Cymuned 05/04/2022
7.2	Clerc i archebu bagiau baw ci gan y Cyngor Sir a gofyn am finiau ychwanegol.
7.3	Llwybrau Cyhoeddus angen eu torri – Y clerc i gadarnhau gyda'r Cyngor Sir pwy sy'n gyfrifol am y gwaith.
7.4	Adroddodd y Cadeirydd na fydd yn sefyll eto yn yr etholiad oherwydd gofynion teuluol ar ei amser.
7.5	Ymddiswyddiad y Clerc – Anwen yn rhoi tri mis o rhybudd o'i bwriad i ymddiswyddo o swydd y Clerc. Anwen i hysbysebu'r swydd.
8.0	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
	Dim
	Llofnod **Cadeirydd 06/04/2022**